4.19

# Y GAETHFASNACH,

A

# THRUENI Y CAETHION.

1 Crewr doeth holl ranau anian,
Luniodd ddyn yn hardd ei wedd;
'Roedd ei gorph yn gywrain odiaeth,
'R enaid oedd yn llawn o hedd;
Rhoddodd iddo ef arglwyddiaeth
Ar yr îs gre'duriaid oll,
'R oedd ei ddeall ef yn oleu,
'R oedd ei natur heb ddim coll.

2 O'r un gwreiddyn hynod hwnw,
Hanodd lliaws daear lawr,
Sydd yn filoedd a myrddiynau
Dros holl barthau'r byd yn awr;
Ond, Och! torodd llygredigaeth
Trwy'r hiliogaeth oll i gyd,
Gweithia'n nerthol trwy'r holl wledydd,
Gweithia'n erchyll iawn o hyd.

3 Sathra'r cryf a'r holl iawnderau'r
Gwan, digymorth yma a thraw,
Nes y sodda'r ysbryd eiddil
Dan y baich yn llawn o fraw;
Gwertha tywysogion creulon
Rai o'u deiliaid ffwrdd o'u gwlad,
Gwraig o ymyl priod anwyl,
Plant o fynwes mam a thad.

4 Cym'rir hwynt yn dorf annedwydd,
Dan gadwynau trymion iawn,
Mewn i longau culion, budron,
Nes bo'r rhai'ny oll yn llawn;
Yno'u cauir megys pentwr,
Heb fawr ddim o awyr iach,
Mae ugeiniau felly'n trengu,
Ar eu taith, 'mhen gronyn bach.

[1853]

X 2052202 30

5 Ar ol glanio gyda'r gweddill,
I farchnadoedd dygir hwy,
Gwerthir hwynt fel anifeiliaid,
Hyn rydd i fynwesau glwy',
Trwy ddeheubarth yr Americ',
Gwelir hwynt yn wael eu gwedd;
Sudda llawer iawn o honynt
'N fuan iawn i byrth y bedd.

6 Mae'r ysgariaeth gynta'n chwerw,
'R ail, os dim, yn chwerwach sydd;
Hyn a wna i'r caethion druain,
Ddysgwyl gwaeth o ddydd i ddydd.
Rhoddir hwynt dan ofal dynion
A'u dilynant yn dra llwyr;
*Gyrir* hwynt o wawr y boreu
Heb fawr gorphwys hyd yr hwyr.

7 Rhaid i'r gwan, y llesg, a'r afiach,
Sydd a'u bron gan boen yn brudd,
Wneud eu rhan o waith eu mheistr
Yn ddiffael o ddydd i ddydd;
Amgen caiff y flangell g'lymog
Ddisgyn ar y cefn llwm,
Erchyll iawn yw'r holl ergydion,
Disgyn pob un lawr yn drwm.

8 Pan bo'u gwaed o'u clwyfau'n llifo,
A'u cyrph drostynt oll yn flin,
Nid oes ganddynt ddynes dyner,
Fedrus, addfwyn, idd eu trin;
Sycha'r gwaed yn dorthau celyd,
Dros archollion cefn briw,
'Does un meistr braidd a deimla,
Dros y caethion du eu lliw.

9 Er mai du yw crwyn y caethion,
Meddant feddwl bywiog cry',
A theimladau tyner, tyner,
Beiddiaf dd'wedyd hyny'n hy',

Teimlant dan yr anmharch gwarthus,
  Roddir iddynt braidd i gyd,
*Nes ynt yn melldithio'r fynyd,*
  Ganed hwynt erioed i'r byd.

10 Clywant weithiau son am Lywydd
  Doeth y greadigaeth fawr,
Un sydd *union* yn ei natur,
  A wna dda o awr i awr;
Gwylltiant, weithiau, a gofynant,
  *Os oes un o'r fath yn bod;*
*Pa'm mae'n goddef meistr ciaidd,*
  *Ar ein gwar i roi ei dro'd*?

11 "A yw'n sylwi ar drueni,
  Ac och'neidiau'r du ei groen,
A yw'n gweled ei archollion,
  A yw'n gwybod am ei boen?
Os yw'n gwybod am y cwbl,
  Pa'm na wnai'n gwaredu ni?
Ai gwiw codi golwg ffyddiog
  A dyrchafu ato'n cri?

12 "D'wed ein meistri mai crist'nogion,
  Ydynt hwy o uchel radd,
Ond er hyny cym'rant bleser
  Yn ein poeni ni, a'n lladd:
O gwareder ni o afael
  Pob rhyw gristion hyll o'r fath,
A all ymddygiadau pagan,
  Mewn rhyw ardal fod yn wa'th?"

13 Anhawdd iddynt ymdawelu
  Dan yr iau haiarnaidd hon,
Ac ymgynal dan eu beichiau
  Pan mae'r gwarth yn clwyfo'r fron;
Arglwydd, Llywydd nef a daear,
  Perchen pawb, o d'wed pa hyd,
Y caif meistri creulon sathru
  Ar iawnderau gweiniaid byd?

14 Mae caethiwed yn tueddu
  I greuloni'r ysbryd byw,

Gwna y meistr, gwna y caethwas
  Yn annhebyg iawn i Dduw ;
Mae'n dinystrio pob mwyneidd-dra,
  A theimladau goreu dyn,
Fel na welir braidd yn unman
  Lle teyrnaso, ond y llun.

15 O deffrown a chydymdeimlwn,
  A'r holl filoedd sydd yn gaeth,
Meddwl am eu cyflwr isel
  Leinw'n calon oll ag aeth ;
O gweddiwn, ac ymdrechwn,
  Ar eu rhan hwy ddydd a nos,
Er eu dwyn dan nodded grasol
  'Rhwn fu farw ar y gro's.

16 'R Hollalluog Dduw, dynoetha
  'Th fraich, a gweithia'n nerthol iawn,
Yr holl ddaear gaffo'th 'nabod
  Yn dy ras a'th gariad llawn ;
Peidied trais a phob gorthrymder,
  Llwydded crefydd dros y byd,
Caffed Iesu ei folianu
  Mewn modd gwresog iawn o hyd.

17 Ond i egwyddorion crefyd
Gael rheoli gwlad a thre',
  Deuai'n daear oll yn debyg
I ardaloedd pur y ne';
  Heded ysbryd mwyn efengyl,
'N gyflym dros derfynau'r llawr,
  Fel y delo cyrau'r ddaear
Oll yn eiddo'n Harglwydd mawr.

YMWELYDD.

---

*E Griffiths, Argraffydd, Abertawy.*

? the printer